Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - Enillydd rhif 11

# Clwb Rygbi Llanharan

LMae Clwb Rygbi Llanharan bob tro'n falch o lwyddiant ei dîm ar y cae. Mae'r Clwb hefyd yn falch o rai chwaraewyr sy'n mynd tu hwnt i'r gofyn oddi ar y cae. Mae'r Clwb yn uned deuluol glos sy'n treulio llawer o amser gyda'i gilydd mewn sesiynau hyfforddi, gemau, achlysuron codi arian, diwrnodau hwyl i'r teulu ac achlysuron eraill.

Mae un o'i chwaraewyr, Ioan, yn Llysgennad Ifanc Swyddogol i Ganolfan Ganser Felindre yng Nghaerdydd. Mae Ioan, ar y cyd â'i chwaer, yn gweithio'n galed iawn i godi arian ar gyfer y garfan anhygoel yn Felindre. Maen nhw eisoes wedi codi £6,000 sy'n anhygoel. Mae Clwb Rygbi Llanharan i gyd yn gefn i Ioan a'i ymdrechion i godi arian ac mae aelodau'r clwb yn gwneud pob dim sy'n bosibl er mwyn ceisio cyrraedd targed Ioan o £10,000.

